Gladys May Aylward 1902–1970

Cenhades yn China

Ganwyd Gladys Aylward ar 24 Chwefror 1902 yn Edmonton, Middlesex. Gadawodd yr ysgol pan oedd yn bedair ar ddeg gan fynd i weithio mewn siop, fel gofalwr plant, ac yna fel morwyn gyda theuluoedd bonheddig. Roedd ei theulu yn Gristnogion ac roedd wedi mynychu eglwys yn gyson. Ym 1929 cafodd ei derbyn gan y China Inland Mission er mwyn ei hyfforddi ar gyfer y genhadaeth ond ni orffennodd y cwrs gan nad oedd yn llwyddo fel myfyriwr.

Roedd yr alwad i fynd i China yn parhau yn gryf yn ei chalon. Gweithiodd am gyfnod yn slymiau Abertawe a Bryste a bu bron iddi farw o niwmonia. Aeth adref i Edmonton i wella ac yno mewn capel Methodistaidd yn Wood Green clywodd fod mudiad bychan cenhadol yn China yn chwilio am weithiwr. Byddai'n rhaid i'r gweithiwr gyrraedd China o'i ben a'i bastwn ei hun. Er mwyn cynilo arian aeth i weithio eto fel morwyn ac yn y cyfnod hwn gweddïodd ei gweddi enwog yn ei hystafell, 'O Dduw. Dyma fi. Dyma fy Meibl. Dyma fy arian. Defnyddia ni Dduw. Defnyddia ni.'

Ar 15 Hydref 1932 gadawodd Gladys orsaf Liverpool Street am China gan deithio trwy'r Undeb Sofietaidd a Siapan. Cyrhaeddodd Yangsheng yn nhalaith Shansi ac ymuno â'r Albanes Mrs Lawson.

Agorasant dafarn i yrwyr mulod fel modd i efengylu. Dysgodd yr iaith leol ar lafar fel ei bod yn gymharol rugl. Pan fu farw ei noddwr fe'i gwnaed yn arolygwr traed yn yr ymgyrch yn erbyn rhwymo traed merched.

Daeth yn berson poblogaidd iawn. Gwraig fechan ydoedd hi, pum troedfedd yn unig, yn llawn hiwmor a heb unrhyw fath o ragfarnau diwylliannol. Roedd hefyd yn ardderchog fel storïwr ac yn cyflwyno Cristnogaeth yn syml a chlir. Gelwid hi gan y brodorion yn Ai Weh-te, a gyfieithir fel 'yr un rinweddol', ac fe'i gwnaed yn ddinesydd Tsieineaidd

ym 1936. Yn raddol daeth rhai i gredu yn Iesu Grist. Un tro ar ei theithiau efengylu i ogledd orllewin y wlad bu'n annerch pum cant o fynaich Lama Tibetaidd. Yr oedd un ohonynt wedi cael tract gyda'r adnod 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' (Ioan 3:16) arno. Credent yr anfonid negesydd atynt i esbonio am y Duw hwn oedd yn caru. Pan ymddangosodd Gladys tybid mai hi oedd yr un. Treuliodd dros wythnos gyda hwy yn esbonio'r Efengyl. Ni wyddai ar ôl hynny beth ddigwyddodd i'r mynaich hyn oherwydd bu'r Comiwnyddion yn eithriadol o greulon tuag atynt.

Ei gweithred enwocaf oedd yn ystod y rhyfel gyda'r Siapaneaid ym 1940. Bryd hynny arweiniodd gant o blant o Yangcheng trwy galedi a pheryglon tros y mynydd i ddiogelwch Sian yr ochr draw i'r Afon Felen. Yno yr oedd cartref i blant amddifad gan Madam Chiang Kai-shek. Gwnaed y digwyddiad hwn yn ffilm sef *The Inn of The Sixth Happiness* (1959) a ffilmiwyd yn rhannol yng Nghymru. Oherwydd salwch dychwelodd Gladys Aylward i Loegr ym 1949. Yn y blynyddoedd dilynol treuliodd amser yn dweud wrth eraill am ei hanturiaethau a sefydlu Eglwys Tseinïaidd yn Llundain. Ym 1957 aeth i Taiwan – ni allai ddychwelyd i China oherwydd bod y Comiwnyddion wedi cymryd drosodd – lle y treuliodd ddeuddeg mlynedd olaf ei bywyd yn gweithio gyda'r Tseiniaid oedd wedi ffoi yno. Bu farw yno ar 1 Ionawr 1970 a chladdwyd ei gweddillion mewn bedd marmor ym mynwent Coleg Crist, Tamsui.